



# Cefnogi ein dysgwyr Cronfa Ariannol Wrth Gefn (FCF) Nodiadau canllaw gwneud cais 2022/23

Cyn cwblhau eich [Cronfa Ariannol Wrth Gefn \(CAWG\) Ffurflen Gais](#), mae'n bwysig eich bod yn darllen y nodiadau canllaw hyn. Os yw unrhyw beth yn aneglur i chi, neu os ydych yn cael anhawster i gwblhau eich cais, mae ein tîm Gwasanaethau Dysgwyr ar gael i helpu.

## A ydw i'n gymwys?

I fod yn gymwys am gefnogaeth ariannol gan y Gronfa Ariannol Wrth Gefn (FCF), rhaid i'r canlynol fod yn wir amdanoch chi:

- Wedi eich dyfarnu â Lwfans Cynhaliath Addysg (LCA) neu Grant Dysgu gan Lywodraeth Cymru (GDLIC) Fodd bynnag, rydym yn eich annog chi i gyflwyno eich cais i'r FCF tra'r ydych yn disgwyl am eich hysbysiad dyfarniad LCA neu GDLIC. Os nad ydych wedi gwneud cais am LCA neu GDLIC, mae pecynnau ymgeisio ar gael ar eich campws, neu gallwch lawrlwytho pecyn yn [www.cyllidmyfyrwrcymru.co.uk](http://www.cyllidmyfyrwrcymru.co.uk) neu ffoniwch 0300 200 4050
- Yn 16 oed neu hŷn ar 31 Awst 2022 ac wedi cofrestru ar gwrs addysg bellach, llawn amser; neu gwrs rhan-amser os ydych yn derbyn gofal neu wedi gadael gofal
- Meddu ar gofnod presenoldeb o 85% ac yn glynu wrth God Ymddygiad y coleg
- Yn preswyllo yn y DU fel rheol neu wedi byw yn y DU ers 3 blynedd cyn i chi ddechrau'r cwrs (neu'n 'fyfyrwr cartref' mewn rhyw ffordd arall, megis dinesydd yr UE neu ffoadur). Yn anffodus ni allwn gynnig cefnogaeth i geiswyr lloches

Os bydd eich amgylchiadau yn newid, er enghraifft eich cwrs, nifer o oriau astudio, trefniadau gofal plant neu amgylchiadau personol, rhaid i chi roi gwybod i ni

---

## Adran 1: Manylion personol

Atebwch yr holl gwestiynau gan sicrhau eich bod yn nodi teitl y cwrs, gan gynnwys y lefel, i'n caniatáu ni i asesu eich cais yn fanwl gywir

---

## Adran 2: Gyda beth ydych chi angen cefnogaeth ariannol?

Gellir darparu cefnogaeth ar gyfer y canlynol:

- **Tocyn Bws**  
Os oes angen tocyn bws arnoch, bydd angen i chi dalu ffi bob tymor am eich tocyn ond byddwch yn gallu teithio am ddim i'r coleg ac oddi yno  
  
Os ydych yn 16-18 oed ac yn byw ym Mlaenau Gwent, Caerffili, Casnewydd neu Dorfaen, RHAID i chi wneud cais i'ch awdurdod lleol am docyn bws. Yn ogystal, RHAID i unigolion rhwng 16-21 oed wneud cais am [Fy Ngherdyn Teithio](#)
- **Cyfarpar, cit, gwisg neu Gyfarpar Diogelu Personol (PPE)**  
Os yw'n ofynnol i chi brynu cyfarpar, cit, gwisg neu PPE fel rhan o'ch cwrs, gall y gronfa eich helpu chi gyda pheth o'r gost neu'r gost gyfan
- **Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)**  
Os yw eich cwrs yn gofyn am wiriad DBS, gall y gronfa helpu tuag at gost hyn
- **Costau prydau bwyd**  
Os ydych rhwng 16-18 oed ac rydych chi neu eich Rhieni / Gwarcheidwaid yn derbyn budd-daliadau cymwys, gallwch gael lwfans pryd bwyd dyddiol o £3.60 y dydd i'w ddefnyddio yn y cyfleusterau arlwygo yn y coleg. Mae rhestr o'r budd-daliadau cymwys yn Adran 3

- **Gofal Plant**

I gael cefnogaeth ariannol tuag at gostau gofal plant, rhaid i chi gwblhau ffurflen Gais CAWG Gofal Plant ar wahân a chael incwm aelwyd blynyddol o £23,000 neu lai. Bydd y FCF yn talu hyd at 90% o'ch costau gofal plant ar gyfer un plentyn, a hyd at £45 y dydd

---

## Adran 3: Incwm yr Aelwyd (Costau bwyd yn unig)

Cwblhewch Adran D os ydych yn gwneud cais am gymorth tuag at gostau prydau bwyd.

I fod yn gymwys am gymorth tuag at eich costau prydau bwyd, rhaid i chi, neu eich Rhiant/Gwarcheidwad dderbyn un o'r budd-daliadau canlynol. Darparwch dystiolaeth, os gwelwch yn dda. Rhaid dyddio'r dystiolaeth a ddarparwyd o fewn y 6 mis diwethaf a rhaid iddi fod o'r un cyfeiriad â'r ymgeisydd.

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith seiliedig ar Incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth seiliedig ar Incwm
- Cymorth dan Ran VI Deddf Mewnfudo a Lloches 1999
- Elfen gwarant Credyd Pensiwn
- Credyd Treth Plant (cyn belled â nad yw'r rhiant yn gymwys am Credyd Treth Gwaith ac yn cael incwm gros blynyddol o ddim mwy na £16,190) **Pob un o chwe thudalen eich hysbysiad dyfarnu diweddaraf.**
- 'Parhad' Credyd Treth Gwaith - telir am 4 wythnos ar ôl i hawliwr beidio â chymhwyso am Credyd Treth Gwaith
- Credyd Cynhwysol, ar yr amod bod gan yr aelwyd incwm net blynyddol a enillir o ddim mwy na £7,400 (fel y'i haseswyd gan enillion o hyd at **dri o'u cyfnodau asesu diweddaraf**).

---

## Adran 4: Manylion talu dysgwyr

Nodwch eich cod didoli a rhif y cyfrif (neu Rif Rôl Cymdeithas Adeiladu). Bydd unrhyw gyllid a roddir tuag at gyfarpar, cit, gwisg, Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) neu wiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn cael ei dalu drwy BACS. Sicrhewch fod y manylion y darparwch yn gywir ac os bydd manylion eich cyfrif yn newid ar unrhyw bryd, rhowch wybod i ni.

---

## Adran 5: Datganiad a GDPR

Darllenwch y datganiad a'r datganiad GDPR a thicio i gytuno eich bod yn deall a hefyd yn rhoi eich caniatâd

---

### Sut caf wybod os yw fy nghais yn llwyddiannus?

Bydd yr holl gyfathrebu gyda chi yn digwydd dros e-bost i'ch cyfrif e-bost coleg, a gallwch gael mynediad at hwn ar [CG Connect](#). Nid yw cyllid yn warrantedig nes eich bod yn cael cadarnhad gan Coleg Gwent. Mae cefnogaeth FCF yn ddewisol ac nid yw'n hawl, mae cyllid yn brin ac nid oes unrhyw ddyfarniad yn warrantedig. Yn ogystal, mae dyraniadau yn ddarostyngedig i unrhyw newidiadau cyllidebol y gall Llywodraeth Cymru eu gorfodi.

Ni ddylai eich ymrwymiad i'r cwrs hwn fod yn seiliedig ar dderbyn y gefnogaeth hon yn unig. Os ydych yn gadael y coleg cyn diwedd eich cwrs, mae'n bosibl y bydd gofyn i chi ad-dalu cyfanswm neu ran o'ch dyfarniad FCF.

### Beth os yw fy nghais yn aflwyddiannus?

Byddwn yn anfon hysbysiad atoch i'ch cyfrif e-bost coleg, a gallwch gael mynediad at hwn ar [CG Connect](#) Os hoffech apelio'r penderfyniad, mae gennych 14 diwrnod i wneud hynny o ddyddiad yr e-bost.

Dylai apeliadau gynnwys eich rhesymau dros apelio, unrhyw dystiolaeth ychwanegol y gallwch ei darparu, a dylid eu hanfon at:

[financesupport@colegwent.ac.uk](mailto:financesupport@colegwent.ac.uk). Byddwn yn rhoi gwybod i chi am ganlyniad eich apêl cyn pen 14 diwrnod o'i derbyn.